OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1565

# Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011

## RHAN 3

CAFFAEL TIR

**Terfyn amser ar gyfer arfer pwerau caffael**

**21.** Ar ôl diwedd y cyfnod o 5 mlynedd sy'n cychwyn gyda'r diwrnod y daw'r Gorchymyn hwn i rym—

(a) ni cheir cyflwyno hysbysiad i drafod telerau o dan Ran 1 o Ddeddf 1965, fel y'i cymhwysir gan erthygl 17; a

(b) ni cheir gweithredu datganiad o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981, fel y'i cymhwysir gan erthygl 18.